



# Adolygiad o'r broses o gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015

Mawrth 2016

## Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 0333 077 2701

[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

## Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 0333 077 2701

# 1 Cynnwys

1	Crynodeb gweithredol.....	3
2	Argymhellion .....	6
3	Cefndir .....	8
4	Nodau ac Amcanion .....	11
5	Dull .....	12
6	Canfyddiadau.....	12
6.1.	Adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau ategol.....	12
6.1.1	Dogfennaeth weithredol ac ategol .....	13
6.1.2	Briffiau her .....	13
6.1.3	Gweithgareddau a deunyddiau hyfforddi .....	14
6.1.4	Argaeledd adnoddau dwyieithog .....	15
6.2	Materion Gweinyddol ac E-bortffolio .....	15
6.2.1	E-bortffolio .....	16
6.2.2	Gweinyddu.....	17
6.3	Asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau .....	17
6.3.1	Canllawiau asesu a deunyddiau enghreifftiol.....	18
6.3.2	Cyfran asesu .....	18
6.3.3	Cyfleoedd i Ailsefyll .....	19
6.4	Strwythur Bagloriaeth Cymru .....	20
6.5	Ystyriaethau polisi.....	22
7	Casgliad.....	23

## 1 Crynodeb gweithredol

Cyflwynwyd y Fagloriaeth Cymru newydd i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2015. Cafodd ei dylunio a'i datblygu mewn ymateb i'r *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*<sup>1</sup> a gyhoeddwyd yn 2012.

Ym mis Medi 2015 hefyd, sefydlwyd Cymwysterau Cymru weithredu fel y rheoleiddiwr annibynnol newydd ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu a'r cymwysterau maent yn eu cynnig i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru. Yn unol â'r amcanion hyn, rydym wedi monitro'r gwaith o gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru sydd newydd gael ei hailgynllunio, gan weithio'n agos gyda CBAC, sef y corff dyfarnu sydd yn ei chynnig.

Yn gyffredinol, ceir cefnogaeth mewn llawer man am Fagloriaeth Cymru a'i nodau o ddatblygu sgiliau a phrofiadau dysgwyr ar gyfer astudio pellach a chyflogaeth. Mae'n glir bod rhanddeiliaid yn cytuno y dylid diwygio ac atgyfnerthu Bagloriaeth Cymru:

*'Mae ysgolion yn benderfynol o wneud hyn yn iawn, gan eu bod yn gweld gwerth yn y cymhwyster...'*

*'Credaf fod cwrs y 'Bac' Cenedlaethol yn dda, ac, o ganlyniad, mae'n werth ei wneud yn dda...'*

Mae cynllun y Fagloriaeth Cymru newydd yn sylweddol wahanol i'r cymhwyster rhagflaenol, a bu angen newid sylweddol arno o ran ymarfer mewn ysgolion a cholegau. Er enghraifft, mae strwythur y Fagloriaeth Cymru newydd bellach yn cynnwys cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau newydd i asesu sgiliau ar gyfer astudio pellach a chyflogaeth, sydd, ar y lefel uwch, yn cyfateb o ran maint a her i Safon Uwch; mae hefyd yn cael ei raddio yn yr un ffordd, ac mae ganddo'r un pwyntiau tariff UCAS.

Nid yw'n anarferol i'r gwaith o weithredu newid sylweddol fel hwn ofyn am sylw agos. Ym mis Hydref a Tachwedd 2015, dechreuodd rhanddeiliaid nodi agweddau ar y Fagloriaeth Cymru newydd lle y byddai angen sylw o'r fath. Gwnaeth Cymwysterau Cymru symud yn gyflym i ymchwilio i'r materion hyn ac i ganfod pa gamau oedd eu hangen. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio canlyniadau'r ymchwiliad hwnnw, a'r argymhellion a ddeilliodd ohono.

Nod ein hymchwiliad oedd asesu a dilysu'r materion a godwyd gan randdeiliaid, gan nodi'r problemau sylfaenol, cynnig argymhellion i fynd i'r afael â hwy a chefnogi'r gwaith parhaus o gyflwyno'r cymwysterau hyn.

O ystyried natur yr adolygiad, mae cryn dipyn o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bethau a oedd yn peri pryder mewn perthynas â'r Fagloriaeth Cymru newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig tanlinellu'r ffaith bod yr holl randdeiliaid a gymerodd yr amser i

---

<sup>1</sup> <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf>

rannu eu sylwadau yn awyddus i ddangos eu cefnogaeth i Fagloriaeth Cymru ac i egluro mai eu nod, wrth godi materion, oedd helpu i wella a chryfhau'r cymwysterau - fel y gwelir gan y dyfyniad isod:

*'Mae'n bwysig pwysleisio bod y rhan fwyaf...o Gydgysylltwyr Bagloriaeth Cymru yn gadarnhaol iawn ynghylch Bagloriaeth Cymru fel y'i diwygiwyd, ac yn hynod gefnogol iddi, ac am ei gweld yn llwyddo. Codwyd unrhyw bryderon mewn modd cadarnhaol. Rhaid hefyd nodi bod yr adborth gan ddisgyblion / myfyrwyr wedi bod yn gadarnhaol.'*

Ein bwriad yn yr adroddiad hwn yw nodi'r problemau sydd wedi codi wrth gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd ac egluro sut yr eir i'r afael â hwy. Rydym hefyd yn egluro sut y byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith o'i gweithredu a'i chyflwyno, fel y gall dysgwyr, darparwyr ac eraill barhau i fod yn hyderus yn y Fagloriaeth Cymru newydd.

Nododd ein hymchwiliad faterion mewn perthynas â'r agweddau canlynol ar y Fagloriaeth Cymru newydd:

### **Adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau ategol**

Nid oedd cryn dipyn o'r ddogfennaeth, canllawiau a hyfforddiant ategol yr oedd eu hangen er mwyn helpu i gyflwyno'r cymwysterau newydd ar gael tan ar ôl dechrau eu haddysgu ym mis Medi 2015.

### **Gweinyddu**

Mae'r dogfennau sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau newydd, a'r canllawiau mewn perthynas â'u cyflwyno, yn cynnwys dyblygu diangen. Maent hefyd yn cynnwys rhai anghysonderau ac nid yw'r gofynion penodol ynddynt bob amser yn glir.

### **E-bortffolio**

Nid oedd llawer o ganolfannau yn ymwybodol o'r gofyniad i ddefnyddio'r system e-bortffolio wrth wneud cynlluniau cychwynnol i gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r dryswch a ddeilliodd o hyn, a'r newidiadau a wnaed yn ei sgil gan ganolfannau er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, mewn sawl achos, wedi arwain at fwy o faich gweinyddol. Mae'r broses gychwynnol o sefydlu'r system a'r amser sydd ei angen i hyfforddi staff hefyd wedi golygu bod canolfannau wedi wynebu heriau ychwanegol wrth gyflwyno'r cymwysterau.

### **Asesiad**

Mae angen mwy o ganllawiau a deunyddiau enghreifftiol er mwyn cefnogi asesiad dibynadwy a chyson o'r Dystysgrif Her Sgiliau. Gwnaethom hefyd nodi bod yr amser sydd ei angen i asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau yn sylweddol o ystyried ei maint, ac y dyblygir asesiad o'r un sgiliau o fewn ei helfennau. Mae hyn wedi ychwanegu at y baich asesu ac wedi cynyddu'r amser sydd ei angen i gyflwyno ac asesu'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

## Strwythur

Codwyd cwestiynau am y strwythur, o ran y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Maint cyffredinol y Dystysgrif Her Sgiliau a pha mor hydrin ydyw
- Y posibilrwydd o ddyblygu dysgu a phrofiadau ar lefelau gwahanol Bagloriaeth Cymru.
- P'un a ddylai Bagloriaeth Cymru ond canolbwyntio ar y Dystysgrif Her Sgiliau, fel bod modd cynnal rhaglenni dysgu mwy unigol
- Y gofyniad i holl elfennau Bagloriaeth Cymru gael eu cymryd ar yr un lefel.

Mewn ymateb i'r materion hyn, byddwn yn cynnal adolygiad manylach o strwythur Bagloriaeth Cymru.

Mewn perthynas â'r Fagloriaeth Cymru ôl-16 newydd, roedd rhanddeiliaid yn pryderu am y canlynol:

- o fis Medi 2016, TGAU newydd fydd yr unig gymwysterau llythrennedd a rhifedd a all gyfrannu at Fagloriaeth Cymru;
- yn wahanol i Fagloriaeth Cymru CA4, ni all dysgwyr nad ydynt yn bodloni gofynion y Fagloriaeth Cymru Cenedlaethol ôl-16 ennill y cymhwyster ar lefel Sylfaen.

Ystyriwn y pwyntiau hyn yn ein hargymhellion.

## Ystyriaethau polisi

Holodd rhai rhanddeiliaid hefyd ynghylch agweddau ar faterion polisi yn ymwneud â'r Fagloriaeth Cymru newydd, gan gynnwys y polisi mabwysiadu cyffredinol. Er bod hyn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, rydym wedi nodi, yn yr adroddiad hwn, y prif faterion a godwyd, fel y gall Llywodraeth Cymru ystyried p'un a ddylid, a sut y dylid, ymdrin â hwy. Ymhlith y pryderon a godwyd mae:

- Ansicrwydd ynghylch goblygiadau ymarferol mabwysiadu cyffredinol i ddysgwyr unigol; er enghraifft, beth yw'r disgwyliadau i ddysgwyr sy'n symud o Fagloriaeth Cymru ar un lefel i lefel arall
- Pa mor hydrin ac ymarferol yw'r gofyniad ariannu i fyfyrwyr sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 â graddau D ac is mewn TGAU Cymraeg/Saesneg a Mathemateg / Mathemateg- Rhifedd a pha mor hydrin ydynt
- Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru ymhlith canolfannau, myfyrwyr, rhieni, addysg uwch a chyflogwyr

## Casgliad

Mae gan randdeiliaid farn gadarnhaol iawn o Fagloriaeth Cymru, ac mae cefnogaeth mewn llawer man

Am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r broses o gyflwyno cymwysterau newydd Bagloriaeth Cymru wedi bod yn fwy heriol nag y gallai fod wedi bod. Mae'r

ffaith bod gofynion a hyfforddiant gweithredol manwl wedi dod i law yn hwyr wedi peri rhwystredigaeth a dryswch, ac mae angen mwy o gyfarwyddyd er mwyn cefnogi'r gwaith o asesu cymwysterau newydd y Dystysgrif Her Sgiliau. Hefyd, erys pryderon ynghylch y gyfran o'r gwaith asesu sydd ei angen ar y Tystysgrifau Her Sgiliau newydd ac ynghylch strwythur Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol.

Mae ein hargymhellion isod yn ymdrin â'r pryderon a nodwyd yn ein hadolygiad er mwyn cefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus er budd dysgwyr yng Nghymru.

## 2 Argymhellion

	Argymhellion	Pryd	Pwy
1.	<p>Dylai Cymwysterau Cymru ariannu CBAC, Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru barhau i gyflwyno hyfforddiant a chyfarwyddyd i ganolfannau er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ac asesu'r Tystysgrifau Her Sgiliau newydd.</p> <p>Rhaid i'r pecyn cymorth cytûn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nad yw unrhyw adnoddau newydd a gaiff eu llunio yn dyblygu deunyddiau sy'n bodoli eisoes, neu ei bod yn amlwg mai'r nod yw cydgrynhoi a disodli deunyddiau sy'n bodoli eisoes.</li> <li>Bod yr holl adnoddau, deunyddiau hyfforddi a seminarau yn cael eu llunio yn brydlon, yn ddwyieithog, yn defnyddio iaith glir a phriodol, a'u bod ar gael yn hawdd i ganolfannau - a hynny ar-lein yn ddelfrydol – a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n drwyadl.</li> </ul>	Mai 2016	Cymwysterau Cymru
2.	<p>Rhaid i bob canolfan gofrestru ar y system e-bortffolio newydd yn ystod blwyddyn academiaidd 2016/17 ac, o fis Medi 2017, rhaid iddynt ddefnyddio'r system e-bortffolio er mwyn rheoli'r gwaith o asesu pob dysgwr sy'n astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau.</p> <p>Dylai Cymwysterau Cymru weithio gyda CBAC, Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru i barhau i ddarparu cyngor a hyfforddiant i ganolfannau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r system e-bortffolio yn llawn o fis Medi 2017.</p>	Yn mynd rhagdd o tan fis Medi 2017	Canolfannau a CBAC  Cymwysterau Cymru

3.	Dylai CBAC lunio astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at enghreifftiau o'r ffordd mae gwahanol ganolfannau yn amserlennu ac yn cyflwyno'r cymwysterau newydd yn llwyddiannus, gan gynnwys enghreifftiau o sut y gellir sicrhau mynediad digonol i gyfleusterau TG.	Mai 2016	CBAC
4.	Dylai CBAC adolygu, diwygio a rhesymoli'r dogfennau ategol (llyfrynau ac ati) ar gyfer y Fagloriaeth Cymru newydd er mwyn dileu unrhyw ddyblygu diangen a sicrhau eu bod yn gywir, yn gyson ac yn hawdd eu defnyddio. Dylai'r dogfennau diwygiedig egluro a chadarnhau'r gofynion ar gyfer cyflwyno a gweinyddu'r cymwysterau newydd.	Mehefin 2016	CBAC
5.	Dylai CBAC gyhoeddi deunyddiau asesu enghreifftiol er mwyn dangos y safon asesu ddisgwyliedig ar gyfer cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau.  Dylai CBAC barhau i ychwanegu at y gronfa o ddeunyddiau enghreifftiol yn dilyn pob cyfres asesu i sicrhau bod amrywiaeth gynhwysfawr o enghreifftiau'n cael ei chreu a'i chynnal ar gyfer pob cydran ac ar bob lefel o'r Dystysgrif Her Sgiliau, ynghyd â sylwadau.	Mai 2016  Medi 2016	CBAC
6.	Dylai Cymwysterau Cymru adolygu sut y caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei hasesu a'i strwythuro, gan gynnwys faint o asesu sydd o'i helfennau unigol, a'i lle yn strwythur cyffredinol Bagloriaeth Cymru.	Medi 2016 i Ragfyr 2016	Cymwysterau Cymru
7.	Yn achos dysgwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2016, dylai CBAC ailgyflwyno'r cyfyngiad (cap) ar y radd y gellir ei rhoi am ailsefyll cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau.  Dylai Cymwysterau Cymru adolygu effeithiolrwydd y cyfyngiad hwn fel rhan o'r broses ehangach o werthuso Bagloriaeth Cymru.	Medi 2016  Medi i Ragfyr 2017	CBAC  Cymwysterau Cymru
8.	Dylai Cymwysterau Cymru weithio gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn cynllunio a chynnal gwerthusiad o'r Fagloriaeth Cymru newydd yn dilyn dyfarniadau haf 2017. Dylai'r gwerthusiad gadarnhau p'un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r broses o ddylunio a chyflwyno Bagloriaeth Cymru, ynghyd â'r fframwaith polisi y'i cyflwynir ynddo. Dylid casglu tystiolaeth o haf 2016 a'r flwyddyn ganlynol er mwyn llywio'r gwerthusiad, gan gynnwys adborth uniongyrchol gan ddysgwyr a darparwyr.	Medi 2016 i Ragfyr 2017	Cymwysterau Cymru

9.	<p>Dylai CBAC ddiweddarau manylebau ar gyfer y Fagloriaeth Cymru Sylfaen a Chenedlaethol ôl-16 er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cadarnhau y gall cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, ar y lefel briodol, barhau i gyfrannu at ddyfarnu y Fagloriaeth Cymru ôl-16</li> <li>• dileu'r gofynion i'r Dystysgrif Her Sgiliau gael ei chwblhau o fewn blwyddyn</li> </ul> <p>Dylai Cymwysterau Cymru a CBAC ymchwilio i a ellid dyfarnu cymhwyster Sylfaen, lle bo'n bosib, i ddysgwyr sy'n astudio'r Fagloriaeth Cymru Cenedlaethol ôl-16.</p>	Mai 2016	CBAC
10.	<p>Dylai CBAC ddiweddarau manylebau Bagloriaeth Cymru er mwyn cadarnhau y gall naill ai gymwysterau TGAU Mathemateg - Rhifedd neu TGAU Mathemateg gyfrannu at gyflawni Bagloriaeth Cymru ar bob lefel.</p>	Mai 2016	CBAC
11.	<p>Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, adolygu ei pholisïau sy'n ymwneud â Bagloriaeth Cymru ac ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Egluro ei disgwyliadau o ran mabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol a beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau a dysgwyr</li> <li>• Beth yw ei disgwyliadau i ddysgwyr 14-19 oed ennill mwy nag un cymhwyster Bagloriaeth Cymru</li> <li>• Egluro ei disgwyliadau i fyfyrwyr sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 â graddau D ac is mewn TGAU Cymraeg/Saesneg a Mathemateg / Mathemateg-Rhifedd.</li> <li>• Ei disgwyliadau i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Fagloriaeth Cymru ôl-16 sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol eraill ar lefelau gwahanol.</li> </ul>	Ddech- rau 2017	Llywodraeth Cymru

### 3 Cefndir

Cyflwynwyd y Fagloriaeth Cymru newydd i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2015. Cafodd ei dylunio a'i datblygu mewn ymateb i'r *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*<sup>2</sup> a gyhoeddwyd yn 2012. Cafodd Egwyddorion Dylunio'r Fagloriaeth Cymru newydd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis


<sup>2</sup> <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf>



Mehfin 2014<sup>3</sup>. Ar sail yr egwyddorion hyn, cafodd y manylebau a ddatblygwyd gan CBAC eu hachredu gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi ym mis Hydref 2014.

Mae pedair fersiwn o Fagloriaeth Cymru ar gael ar lefelau 1, 2 a 3:

Teitl	Lefel	Disgrifiad
Uwch	3	Cwrs dwy flynedd a gyflwynir yn y chweched dosbarth a gan ddarparwyr addysg bellach
Cyfnod Allweddol 4 (CA4) Cenedlaethol/Sylfaen	1 a 2	Cwrs dwy flynedd a gyflwynir mewn ysgolion
Ôl-16 Cenedlaethol	2	Cwrs blwyddyn o hyd a gyflwynir yn y chweched dosbarth a gan ddarparwyr addysg bellach
Ôl-16 Sylfaen	1	Cwrs blwyddyn o hyd a gyflwynir yn y chweched dosbarth a gan ddarparwyr addysg bellach



Fel mae'r diagram uchod yn dangos, mae pob Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar fodel cyffredin ac yn cynnwys sawl cymhwyster.

<sup>3</sup> <http://dera.ioe.ac.uk/20943/1/140630-welsh-baccalaureate-design-principles-en.pdf>

Prif gydran pob Bagloriaeth Cymru yw'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r cymhwyster hwn yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feiriadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesedd
- Effeithiolrwydd Personol

Mae dyluniad manwl y prosiect ac elfennau her y Dystysgrif Her Sgiliau yn wahanol ar gyfer pob lefel o Fagloriaeth Cymru. Mae pob Tystysgrif Her Sgiliau yn seiliedig ar y strwythur cyffredin canlynol:

Elfen	Pwysoliad
Prosiect Unigol	50%
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%
Her Gymunedol	15%

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster ar wahân a chaiff ei ddyfarnu a'i raddio yn ei rinwedd ei hun. Caiff pob cydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau ei graddio'n unigol hefyd. Yn y Tystysgrifau Her Sgiliau Uwch a Chenedlaethol cânt eu graddio ar sail Llwyddiant, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

Elfennau'r Dystysgrif Her Sgiliau				
		Heriau		
	<i>Prosiect Unigol</i>	<i>Menter a Chyflogadwyedd</i>	<i>Dinasyddiaeth Fyd-eang</i>	<i>Cymunedol</i>
<i>Pwrpas</i>	Datblygu sgiliau ymchwil dysgwyr	Meithrin sgiliau a phriodoleddau mentrus a gwella cyflogadwyedd	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion y byd	Nodi cyfleoedd yn y gymuned a chymryd rhan ynddynt
<i>Pwyslais</i>	Dyheadau addysgol neu yrfaol ar gyfer y dyfodol	Datblygu'r sgiliau a'r priodoleddau sy'n ofynnol ar gyfer gwaith ac addysg uwch	Deall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt	Annog y dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd sydd o fudd i gymuned
<i>Y sgiliau a arddangosir</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau ymchwil a gwybodaeth</li> <li>• Lefel uchel o astudio annibynnol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• rhifedd</li> <li>• llythrennedd digidol</li> <li>• creadigrwydd ac arloesi</li> <li>• effeithiolrwydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• llythrennedd</li> <li>• meddwl yn feiriadol</li> <li>• datrys problemau</li> <li>• creadigrwydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cynllunio a threfnu</li> <li>• effeithiolrwydd personol</li> </ul>

		personol	ac arloesi	
Asesu	Adroddiad ysgrifenedig estynedig neu arteffact/cynnyrch a ategir gan dystiolaeth ysgrifenedig	Briff her	Briff her	Briff her

Mae pob Her unigol wedi'i chefnogi gan amrywiaeth o friffiau her. Mae pob briff her yn nodi'r cyd-destun y bydd dysgwyr yn cyflawni'r tasgau a osodir gan CBAC ynddo. Mae dau fath o friff her: briffiau generig, y gall canolfannau eu diwygio, a briffiau cymeradwy, sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth â chyflogwyr a sefydliadau. Ar gyfer pob Bagloriaeth Cymru, mae'r briffiau generig a chronfa o friffiau cymeradwy ar gael ar wefan CBAC.

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru, rhaid i ddysgwr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau berthnasol, ynghyd â'r cymwysterau llythrennedd a rhifedd penodol a chymwysterau ategol eraill. Yn dibynnu ar ba Fagloriaeth Cymru a astudir gan ddysgwr (CA4, Ôl-16 neu Uwch), bydd y cymwysterau ategol eraill hyn naill ai ar lefel TGAU neu Safon Uwch neu'n gymwysterau galwedigaethol. Ceir rhagor o fanylion am strwythur a gofynion penodol pob cymhwyster ar wefan CBAC<sup>4</sup>.

Ym mis Hydref a Thachwedd 2015, dechreuodd rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru godi pryderon am y Fagloriaeth Cymru newydd, yn enwedig y Dystysgrif Her Sgiliau. Penderfynwyd ymchwilio i'r pryderon hyn ymhellach. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio canfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw a'r argymhellion a ddeilliodd ohono.

## 4 Nodau ac Amcanion

Nod ein hymchwiliad oedd asesu'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid, nodi a dilysu'r materion a godwyd, cynnig argymhellion i fynd i'r afael â hwy a chefnogi'r gwaith parhaus o gyflwyno'r cymwysterau hyn.

Amcanion yr adolygiad oedd:

- dosbarthu a gwerthuso'r pryderon a godwyd am Fagloriaeth Cymru gan wahanol randdeiliaid;
- ceisio mwy o adborth, eglurhad a thystiolaeth lle bo'n briodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau a dulliau gweithredu er mwyn gwneud ein canfyddiadau'n fwy dibynadwy;
- asesu dilysrwydd y pryderon a nodwyd yn feirniadol;
- adolygu dogfennau yn ymwneud â'r cymwysterau;
- gwneud argymhellion hyddysg.

<sup>4</sup><http://qualificationswales.org/qualifications/welsh-baccalaureate/?lang=cy>

## 5 Dull

Rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Ionawr 2016, gwnaethom adolygu amrywiaeth o dystiolaeth yn ymwneud â chyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd, gan gynnwys cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys:

- Dogfennaeth yn ymwneud â'r cymwysterau eu hunain, gan gynnwys yr Egwyddorion Dylunio<sup>5</sup>, Manylebau<sup>6</sup>, Cod Ymarfer Canolfannau<sup>7</sup>, Llawlyfr Gweinyddu<sup>8</sup>, Llawlyfrau Cyflwyno<sup>9 10 11 12</sup>, a dogfennau'n ymwneud ag achredu'r cymwysterau newydd;
- Pob ymholiad, sylw ac adborth gan randdeiliaid amrywiol a gafodd Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a CBAC;
- Pryderon, sylwadau a materion a gyfunwyd gan ganolfannau a roddwyd gan bob un o'r Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru;
- Gwybodaeth am yr hyfforddiant a roddwyd gan CBAC er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau newydd, gan gynnwys cofnodion presenoldeb ac adborth o'r sesiynau;
- Adborth gan Dîm Cysylltiadau Allanol Cymwysterau Cymru yn seiliedig ar drafodaethau ag amrywiaeth o randdeiliaid mewn ysgolion a cholegau.

Yn ein hadolygiad, gwnaethom ganolbwyntio ar driongli ac ategu pryderon a, lle bo modd, canfod beth oedd wrth wraidd hyn. Hefyd, ystyriwyd pa effaith a gafwyd - os o gwbl - o ganlyniad i hynny.

## 6 Canfyddiadau

### 6.1. Adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau ategol

Nid oedd dogfennaeth a oedd yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r cymwysterau newydd yn effeithiol, gan gynnwys y Llawlyfrau Cyflwyno a'r Cod Ymarfer, ar gael nes ar ôl i'r Fagloriaeth Cymru newydd gael ei chyflwyno ac i gymwysterau newydd y Dystysgrif Her Sgiliau ddechrau cael eu haddysgu.

Effeithiodd yr oedi hwn ar amseru, ac felly, effeithiolrwydd, hyfforddiant. Hefyd, roedd yn golygu na allai canolfannau gynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau

---

<sup>5</sup> Egwyddorion Dylunio - [yma](#)

<sup>6</sup> Manylebau - [yma](#)

<sup>7</sup> Cod Ymarfer Canolfannau - [yma](#)

<sup>8</sup> Llawlyfr Gweinyddu - [yma](#)

<sup>9</sup> Llawlyfr Cyflwyno (CA4) - [yma](#)

<sup>10</sup> Llawlyfr Cyflwyno (Ôl-16 Sylfaen) - [yma](#)

<sup>11</sup> Llawlyfr Cyflwyno (Ôl-16 Cenedlaethol) - [yma](#)

<sup>12</sup> Llawlyfr Cyflwyno (Uwch) - [yma](#)

newydd, er enghraifft, amserlennu'r mynediad angenrheidiol i gyfrifiaduron ar gyfer myfyrwyr. Yn sgil hyn, rhoddwyd baich ychwanegol ar ganolfannau ac athrawon wrth geisio diwygio eu cynlluniau ar ôl i'r tymor ddechrau.

Mewn rhai achosion, ychwanegodd anghysondeb a dyblygu diangen o fewn dogfennaeth ategol a deunyddiau hyfforddi at y baich gweinyddol a gwnaeth hyn beri dryswch a rhwystredigaeth.

Wrth wraidd y broses o gyflwyno unrhyw gymhwyster newydd yn llwyddiannus mae darparu dogfennau ategol allweddol ar amser. Mae'r ffaith y bu oedi cyn darparu'r dogfennau allweddol yn ymwneud â chyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd, gan gynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau, wedi cyfrannu at lawer o'r pryderon a drafodir yn yr adroddiad hwn. Er bod ein hargymhellion yn canolbwyntio ar sut i sicrhau y parheir i gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd, mae effaith yr oedi wrth lunio'r deunyddiau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd sefydlu a glynu wrth amserlenni clir o'r cychwyn wrth ddatblygu polisïau, a dylunio a chyflwyno cymwysterau newydd ar raddfa genedlaethol.

### **6.1.1 Dogfennaeth weithredol ac ategol**

Nid oedd y dogfennau allweddol canlynol a oedd yn ymwneud â chyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd ar gael tan fis Hydref 2015 – ar ôl i'r Dystysgrif Her Sgiliau ddechrau cael ei haddysgu:

- Y Cod Ymarfer, sy'n nodi gofynion gweithdrefnau safonau a sicrwydd ansawdd mewnol, ac sydd ar gyfer y rheini sy'n rheoli, yn cyflwyno neu'n asesu Bagloriaeth Cymru.
- Y Llawlyfr Gweinyddu, sy'n rhoi gwybodaeth hanfodol am weinyddu'r cymwysterau newydd, gan gynnwys terfynau amser mynediad, trefniadau cymedroli a gwybodaeth godio.
- Y Llawlyfrau Cyflwyno, sy'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar gyflwyno pob Bagloriaeth Cymru.

### **6.1.2 Briffiau Her**

Briffiau her yw'r briffiau asesu a ddefnyddir gan ymgeiswyr o fewn eu hasesiad crynodol. Mae dau fath o friff her: briffiau generig, y gall canolfannau eu diwygio, a briffiau cymeradwy, sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth â chyflogwyr a sefydliadau. Ar gyfer pob Bagloriaeth Cymru, mae'r briffiau generig a chronfa o friffiau cymeradwy ar gael ar wefan CBAC.

Ym mis Hydref 2015, dim ond nifer gyfyngedig o friffiau her oedd ar gael i ganolfannau. Ers hynny, mae mwy o friffiau her wedi bod ar gael ar gyfer pob Tystysgrif Her Sgiliau, er bod nifer y briffiau sydd ar gael ar gyfer pob her benodol yn amrywio, a phrin iawn yw'r amrywiaeth o friffiau her ar gyfer rhai heriau o hyd. Er enghraifft, dim ond un briff sydd ar gael i gefnogi'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang ar

lefel Ôl-16 Sylfaen. Cynyddodd nifer y briffiau her yn ystod tymor yr hydref; dengys Tabl 1 nifer y briffiau oedd ar gael ar gyfer pob her ym mis Ionawr 2016:

**Tabl 1: Crynodeb o'r briffiau her oedd ar gael ym mis Ionawr 2016**

<b>Uwch</b>	<b>Heriau ar gael</b>
Cymunedol	11
Menter a Chyflogadwyedd	14
Dinasyddiaeth Fyd-eang	9
<b>Ôl-16 Cenedlaethol</b>	<b>Heriau ar gael</b>
Cymunedol	11
Menter a Chyflogadwyedd	6
Dinasyddiaeth Fyd-eang	5
<b>Ôl-16 Sylfaen</b>	<b>Heriau ar gael</b>
Cymunedol	4
Menter a Chyflogadwyedd	7
Dinasyddiaeth Fyd-eang	1
<b>CA4 Cenedlaethol/Sylfaen</b>	<b>Heriau ar gael</b>
Cymunedol	9
Menter a Chyflogadwyedd	4
Dinasyddiaeth Fyd-eang	9

### 6.1.3 Gweithgareddau a deunyddiau hyfforddi

Roedd rhanddeiliaid yn poeni bod y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd er mwyn paratoi i gyflwyno cymwysterau newydd y Dystysgrif Her Sgiliau yn rhy hwyr. Codwyd pryderon hefyd am ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant, yn arbennig y ffaith bod anghysondeb rhwng gwahanol ddigwyddiadau hyfforddi a bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio mwy ar ddyluniad y cymhwyster yn hytrach na sut i'w gyflwyno. Cynigiwyd hyfforddiant gan nifer o ddarparwyr, gan gynnwys CBAC, Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru. Yn aml, roedd pryderon a godwyd am hyfforddiant yn gyffredinol ac roedd yn anodd eu priodoli i ddigwyddiadau hyfforddi penodol.

Darparwyd digwyddiadau hyfforddi gan CBAC yn ystod hydref 2014, gwanwyn 2015 a hydref 2015. Rhoddodd y digwyddiadau yn hydref 2014 a gwanwyn 2015 drosolwg cyffredinol o Fagloriaeth Cymru ar bob lefel, ac ychydig o ganllawiau paratoi mewn perthynas â'r heriau, ond ni roddwyd cyngor manwl ar sut i gyflwyno'r Dystysgrif Her Sgiliau newydd.

Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn hydref 2015 yn fwy penodol, gyda sesiynau ar lefelau CA4 ac Ôl-16 ym mis Hydref, ac ar y lefel Uwch ym mis Tachwedd. Roedd hyn yn rhy hwyr, fodd bynnag, i gefnogi gwaith paratoi effeithiol, am fod yr addysgu eisoes wedi dechrau; ar y cymwysterau ôl-16 a gyflwynir mewn un flwyddyn academiaidd y cafodd hyn yr effaith fwyaf.

Gwelwyd rhai enghreifftiau o wybodaeth anghyson yn cael ei rhoi yn y digwyddiadau hyfforddi gwahanol, er enghraifft, o ran nifer y ffynonellau y dylid eu cynnwys yn y pecyn adnoddau ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Roedd agweddau cadarnhaol i'r hyfforddiant a gafwyd. Roedd y deunyddiau a'r adnoddau hyfforddiant a luniwyd gan CBAC ar gael yn ddwyieithog ac yn rhoi enwau'r staff y gellid cysylltu â hwy am gymorth ychwanegol. Roedd adborth y sawl a gafodd yr hyfforddiant yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda llawer yn galw am i'r hyfforddiant barhau wrth i'r cymwysterau newydd ymsefydlu.

#### 6.1.4 Argaeledd adnoddau dwyieithog

Mae nifer o randdeiliaid wedi codi pryderon 'nad yw'r holl adnoddau ar gael (neu ar gael yn hawdd) yn ddwyieithog, nid yn unig o'r Saesneg i'r Gymraeg ond hefyd o'r Gymraeg i'r Saesneg.' Mae a wnelo hyn yn benodol â'r briffiau her a rhai o'r taflenni a ddarparwyd mewn digwyddiadau hyfforddi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

O'n hadolygiad o ddeunyddiau hyfforddiant ac ategol, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau (ond nid pob un) wedi'u cynnal yn ddwyieithog a bod y rhan fwyaf o'r taflenni (ond nid pob un) yn ddwyieithog. O blith y briffiau her a oedd ar gael ar wefan CBAC, roedd dwy enghraifft lle'r oedd llai o adnoddau ar gael yn Gymraeg nag yn Saesneg, ac roedd dwy lle'r oedd mwy o adnoddau Cymraeg na rhai Saesneg. Digwyddodd hyn oherwydd materion technegol ar wefan CBAC, ac ymgodymwyd â'r rhain ers hynny.

Argymhelliad 1:	Pryd
<p>Dylai Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru ariannu CBAC, Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru i barhau i gyflwyno hyfforddiant a chyfarwyddyd i ganolfannau er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ac asesu'r Tystysgrifau Her Sgiliau newydd.</p> <p>Rhaid i'r pecyn cymorth cytûn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nad yw unrhyw adnoddau newydd a gaiff eu llunio yn dyblygu deunyddiau sy'n bodoli eisoes, neu ei bod yn amlwg mai'r nod yw cydgrynhoi a disodli deunyddiau sy'n bodoli eisoes.</li> <li>• Bod yr holl adnoddau, deunyddiau hyfforddi a seminarau yn cael eu llunio yn brydlon, yn ddwyieithog, yn defnyddio iaith glir a phriodol, a'u bod ar gael yn hawdd i bob canolfan – a hynny ar-lein yn ddelfrydol – a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n drwyadl.</li> </ul>	Mai 2016

## 6.2 Materion Gweinyddol ac E-bortffolio

Roedd baich gweinyddol uwch cyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd yn bryder cyffredin – mewn perthynas â'r system e-bortffolio y'i mynegwyd fwyaf. Mae'r system

e-bortffolio yn borth ar-lein sy'n galluogi dysgwyr i lunio a storio eu tystiolaeth asesu'n ddigidol; mae'r system hefyd yn galluogi athrawon a thiworiaid i gofnodi marciau ar gyfer y gwaith ac i'r dystiolaeth a'r marciau gael eu cyflwyno i CBAC i'w cymedroli.

### 6.2.1 E-bortffolio

Ni chafodd y gofyniad i bob canolfan ddefnyddio'r e-bortffolio ei wneud yn glir tan ar ôl i'r cymhwyster ddechrau cael ei addysgu. Hefyd, yn gyffredinol, nid oedd hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system ar gael tan ddiwedd tymor yr hydref 2015 a dechrau tymor y gwanwyn 2016. I rai, golygai hyn nad oedd eu hamserlenni yn rhoi digon o fynediad i gyfrifiaduron i ddysgwyr ar adegau priodol yn ystod y cwrs. I eraill, nid oedd digon o amser i hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio'r system yn hyderus.

Ymddengys fod llawer o'r pryderon a godwyd am weithredu'r system e-bortffolio ei hun yn seiliedig ar y ffaith nad oedd unigolion yn ddigon cyfarwydd â hi, yn hytrach nag unrhyw fethiannau ar ran y system ei hun. Yn yr un modd, mae pryderon ynghylch baich gweinyddol ychwanegol defnyddio'r system yn adlewyrchu - yn rhannol, o leiaf - y trefniadau a wnaed gan ganolfannau, neu y maent yn disgwyl eu gwneud, er mwyn lanlwytho tystiolaeth ar ran ymgeiswyr, yn hytrach na rhoi amser i ymgeiswyr gael mynediad i gyfrifiaduron er mwyn cynhyrchu tystiolaeth yn ddigidol fel rhan o'r cwrs.

Mae CBAC wedi cymryd camau i ymdrin â'r anhawster y mae canolfannau wedi'i gael yn sicrhau bod gan eu dysgwyr fynediad i'r system e-bortffolio. Yn achos canolfannau sy'n cynnig y Fagloriaeth Cymru ôl-16, mae CBAC wedi diwygio gofynion ynghylch i ba raddau y mae'n rhaid defnyddio'r system e-bortffolio. Yn achos y Fagloriaeth Cymru lefel Uwch a Chyfnod Allweddol 4, mae CBAC wedi cadarnhau'n ddiweddar mai opsiynol fydd y defnydd o'r system e-bortffolio ar gyfer y garfan gyntaf sy'n astudio'r cymhwyster. Mae deunyddiau hyfforddiant a chanllawiau ar-lein a ddatblygwyd gan gonsortia rhanbarthol er mwyn ategu'r hyfforddiant a ddarperir gan CBAC hefyd ar gael bellach.

Argymhelliad 2:	Pryd
<p>Rhaid i bob canolfan gofrestru ar y system e-bortffolio newydd yn ystod blwyddyn academiaidd 2016/17 ac, o fis Medi 2017, rhaid iddynt ddefnyddio'r system e-bortffolio er mwyn rheoli'r gwaith o asesu pob dysgwr sy'n astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai Cymwysterau Cymru weithio gyda CBAC, Consortia Rhanbarthol a Colegau Cymru i barhau i ddarparu cyngor a hyfforddiant i ganolfannau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r system e-bortffolio yn llawn o fis Medi 2017.</li> </ul>	<p>Yn mynd rhagddo tan fis Medi 2017</p>



<b>Argymhelliad 3:</b>	
Dylai CBAC lunio astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at enghreifftiau o'r ffordd mae gwahanol ganolfannau yn amserlennu ac yn cyflwyno'r cymwysterau newydd yn llwyddiannus, gan gynnwys enghreifftiau o sut y gellir sicrhau mynediad digonol i gyfleusterau TG.	Mai 2016

### 6.2.2 Gweinyddu

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y gofynion a roddwyd ar ganolfannau yn rhesymol ac yn gyfiawn o ran sicrhau asesiad dibynadwy. Mewn rhai achosion, gellid nodi'r gofynion yn gliriach.

Yn ystod yr adolygiad, gwnaethom hefyd nodi bod nifer o'r dogfennau allweddol yn debyg iawn. Er enghraifft, mae pedair Manyleb ar wahân a phedwar Llawlyfr ar wahân sy'n cwmpasu pob Bagloriaeth Cymru o fewn y gyfres, gyda chryn dipyn o'r wybodaeth yn generig, ac felly'n cael ei hailadrodd. Mae hyn yn arbennig o wir am CA4 ac Ôl-16. Mae hyn yn peri'r risg o gynyddu'r baich gweinyddol ar staff sy'n cyflwyno sawl lefel wahanol o Fagloriaeth Cymru. Er enghraifft, rhestrir cynnwys y 'ffolder datblygu sgiliau' mewn nifer o ddogfennau, gan gynnwys Manyleb CA4, Llawlyfr Cyflwyno CA4 a Chod Ymarfer Canolfannau.

Mae a wnelo rhai o'r pryderon ynghylch baich gweinyddol yn benodol â'r gofyniad i ganolfannau greu pecynnau adnoddau i ategu'r Heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang yng nghymwysterau CA4 ac Ôl-16. Gwaethygyd y baich ar staff a oedd yn deillio o hyn gan y ffaith bod dogfennaeth ategol wedi'i chyhoeddi'n hwyr, a olygai fod yn rhaid i rai aelodau o staff ailedrych ar gynlluniau gwaith ac adnoddau eraill a baratowyd.

<b>Argymhelliad 4:</b>	<b>Pryd</b>
Dylai CBAC adolygu, diwygio a rhesymoli'r dogfennau ategol (llyfrynau ac ati) ar gyfer y Fagloriaeth Cymru newydd er mwyn dileu unrhyw ddyblygu diangen a sicrhau eu bod yn gywir, yn gyson ac yn hawdd eu defnyddio. Dylai'r dogfennau diwygiedig egluro a chadarnhau'r gofynion ar gyfer cyflwyno a gweinyddu'r cymwysterau newydd.	Mehafin 2016

## 6.3 Asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau

Codwyd ystyriaethau am yr agweddau canlynol ar ddull asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau.

### 6.3.1 Canllawiau asesu a deunyddiau enghreifftiol

Mynegwyd pryder cyffredin nad oedd y canllawiau ar sut i asesu gwahanol elfennau'r heriau a phrosiect unigol yn ddigonol nac yn eglur. Yn ychwanegol, roedd pryderon ynghylch y swm cyfyngedig o ddeunydd enghreifftiol a luniwyd er mwyn dangos sut y dylid defnyddio'r gridiau asesu ar gyfer gwaith ymgeiswyr.

Daeth ein hadolygiad o hyd i dystiolaeth i ategu'r pryderon hyn. Er mwyn bod yn effeithiol ac yn ddibynadwy, mae tasgau a gaiff eu marcio'n fewnol yn gofyn i'r meini prawf asesu gael eu hategu gan enghreifftiau o waith sydd wedi'i farcio. Nid oedd y broses gynllunio a datblygu ar gyfer y Fagloriaeth Cymru newydd yn rhoi digon o gyfle i'r deunyddiau hyn gael eu creu, a hyd yn hyn, dim ond deunyddiau enghreifftiol cyfyngedig sydd wedi'u darparu i gefnogi'r gwaith o asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Mae'r deilliannau dysgu, datganiadau bandiau perfformiad a gridiau asesu ar gyfer y Tystysgrifau Her Sgiliau yn gofyn am ddeunyddiau enghreifftiol i gefnogi'r gwaith o safoni marcio'n effeithiol mewn canolfannau. Er enghraifft, o fewn yr Her Menter a Chyflogadwyedd, mae'r gwahaniaeth rhwng dau fand uchaf Deilliant Dysgu (DD)2 yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng *'Manwl a rhesymegol'*, a *'Manwl a dangos rhesymeg dda'*. Nid yw'r gwahaniaethau hyn, heb ddeunyddiau enghreifftiol i'w hategu, yn sail gadarn ar gyfer gwaith asesu a safoni. Mae'n bosib y gallai prinder deunyddiau asesu enghreifftiol arwain at amrywioldeb o ran marcio mewn ac ar draws canolfannau, a allai olygu bod marciau'n cael eu haddasu yn sgil cymedrolï allanol.

Codwyd pryderon hefyd am briodoldeb a hygyrchedd yr iaith a ddefnyddiwyd mewn rhai o'r briffiau her, yn enwedig o ran yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig gan ddysgwyr a oedd yn astudio cymhwyster Sylfaen. Ar ôl ymchwilio ymhellach, nodwyd bod y pryderon hyn yn deillio'n bennaf o'r materion a drafodwyd uchod ynghylch yr enghreifftiau cyfyngedig sydd ar gael o'r safon a ddisgwyliir.

Argymhelliad 5:	Pryd
Dylai CBAC gyhoeddi deunyddiau asesu enghreifftiol er mwyn dangos y safon asesu ddisgwyliedig ar gyfer cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau.	Mai 2016
Dylai CBAC barhau i ychwanegu at y gronfa o ddeunyddiau enghreifftiol yn dilyn pob cyfres asesu i sicrhau bod amrywiaeth gynhwysfawr o enghreifftiau'n cael ei chreu a'i chynnal ar gyfer pob cydran ac ar bob lefel o'r Dystysgrif Her Sgiliau, ynghyd â sylwadau.	Medi 2016

### 6.3.2 Cyfran asesu

Ystyriaeth gyffredin arall a godwyd oedd bod y gyfran o'r amser a dreuliwyd ar y gwaith o asesu elfennau o'r Dystysgrif Her Sgiliau yn anghymesur ac nad yw'n caniatáu digon o amser i'r sgiliau a oedd yn cael eu hasesu gael eu haddysgu a'u

datblygu. Codwyd pryderon hefyd o ran pa mor hydrin oedd yr asesiad a'i hygyrchedd i bob ymgeisydd, yn enwedig y rhai sy'n astudio'r cymwysterau Sylfaen.

Nodwyd gennym fod yr amser yr oedd ei angen ar gyfer y gwaith asesu, mewn perthynas â'r nifer gyffredinol o oriau dysgu dan arweiniad a awgrymwyd ar gyfer y cymhwyster, yn uchel. Nodwyd hefyd y dyblygir asesiad o'r un sgiliau ar gyfer yr Heriau gwahanol a gynhwysir yn y Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n ychwanegu at y baich asesu ac yn cynyddu'r amser sydd ei angen i gyflwyno ac asesu'r cymhwyster yn gyffredinol.

Mae darparwyr Addysg Bellach yn poeni'n arbennig am yr amser sydd ei angen yn gyffredinol, yng nghyd-destun cwrs blwyddyn o hyd, i ddysgwyr sy'n astudio'r Tystysgrifau Her Sgiliau Ôl-16 feithrin y sgiliau angenrheidiol a'u dangos yn unol â'r gofynion asesu. Mae rhai yn pryderu bod maint y cymhwyster yn ymddangos yr un fath â fersiwn CA4, a gyflwynir dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae eraill yn nodi y bydd gan gyfran sylweddol o ddysgwyr 16 oed sy'n dechrau addysg bellach fylchau o ran eu sgiliau llythrennedd a rhifedd, y mae angen mynd i'r afael â hwy cyn y gallant gael eu hasesu ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau.

Argymhelliad 6	Pryd
Dylai Cymwysterau Cymru adolygu'n fanwl sut y caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei hasesu a'i strwythuro, gan gynnwys faint o asesu sydd o'i helfennau unigol, a'i lle yn strwythur cyffredinol Bagloriaeth Cymru.	Medi 2016 i Ragfyr 2016

### 6.3.3 Cyfleoedd i Ailsefyll

Mae'r cyfyngiad (neu'r 'cap') ar ailsefyll elfennau o'r Dystysgrif Her Sgiliau Lefel Uwch a CA4 wedi peri pryder i ysgolion.

Mae'r manylebau ar gyfer y cymwysterau hyn yn disgrifio'r cyfyngiad fel a ganlyn (dyfyniad o'r fanyleb ar gyfer cymhwyster CA4):

*“Caiff dysgwyr un cyfle i ailsefyll pob cydran a gaiff ei hasesu h.y. y tair Her a'r Prosiect Unigol. Os bydd dysgwr yn ailsefyll, y radd uchaf y bydd yn gallu ei hennill ar gyfer yr Her neu'r Prosiect hwnnw fydd Llwyddiant Lefel 2 – dim ond ‘llwyddiant’ y gellir ei ddyfarnu iddynt.”*

*"gall dysgwr sy'n **ailsefyll** Her ailddefnyddio briff yr Her wreiddiol neu ddewis un gwahanol."*

Nid oedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno â gosod y cap, neu holwyd beth oedd y rheswm dros wneud hynny. Nid oedd eraill yn siŵr a fyddai'n rhaid i ddysgwyr sy'n ailsefyll greu darn cwbl newydd o waith. Nododd rhai ysgolion fod ansicrwydd ynghylch ailsefyll wedi cyfrannu at eu penderfyniad i beidio â chyflwyno gwaith ymgeiswyr i'w gymedroli yng nghyfres mis Ionawr.

Ar gyfer y garfan gyntaf o ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau CA4 a lefel Uwch, gofynnodd CBAC i'r cyfyngiad gael ei lacio er mwyn lleddfu effaith y materion mewn perthynas â deunyddiau hwyr, a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Gwnaethom gytuno y dylid llacio'r cyfyngiad ar gyfer y garfan gyntaf sy'n astudio'r cymwysterau hyn, a'i ailgyflwyno ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau astudio ym mis Medi 2016.

Argymhelliad 7	Pryd
<p>Yn achos dysgwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2016, dylai CBAC ailgyflwyno'r cyfyngiad (cap) ar y radd y gellir ei rhoi am gydran o'r Dystysgrif Her Sgiliau a gaiff ei hailsefyll.</p> <p>Dylai Cymwysterau Cymru adolygu effeithiolrwydd y cyfyngiad hwn fel rhan o'r broses ehangach o werthuso Bagloriaeth Cymru.</p>	<p>Medi 2016</p> <p>Medi i Ragfyr 2017</p>

## 6.4 Strwythur Bagloriaeth Cymru

Mae rhai rhanddeiliaid wedi codi cwestiynau am y strwythur, o ran y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol.

O ran y Dystysgrif Her Sgiliau, gofynnodd rhai rhanddeiliaid a allai un o'r Heriau fod yn opsiynol, fel mae dim ond dwy o'r tair her y byddai angen i fyfyrwyr eu cwblhau. Awgrymodd eraill gyfuno'r Her Gymunedol â'r Her Menter a Chyflogadwyedd, am fod y sgiliau a gaiff eu hasesu'n gorgyffwrdd.

O ran strwythur a dyluniad Bagloriaeth Cymru, codwyd nifer o gwestiynau.

- Cwestiynodd rhai yr angen i gael tri chynnig gwahanol ar lefel Genedlaethol a Sylfaen a ph'un a oeddent yn ddigon cydnaws i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu o un i'r llall, yn enwedig o Bagloriaeth Cymru CA4 i ôl-16.
- Holodd eraill a ddylai strwythur Bagloriaeth Cymru barhau, gan nodi bod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster annibynnol ynddi'i hun, ac y byddai dileu strwythur Bagloriaeth Cymru yn galluogi canolfannau i gynnig rhaglenni sy'n fwy addas at anghenion dysgwyr unigol.
- Cwestiwn arall a godwyd oedd pam bod angen i bob cymhwyster sy'n cyfrannu at bob Bagloriaeth Cymru gael ei astudio ar yr un lefel (y Dystysgrif Her Sgiliau, y cymhwyster llythrennedd a rhifedd, a chymwysterau ategol). Ystyriwyd bod hyn yn gyfyngol ac yn mynd yn erbyn y syniad o ddylunio rhaglenni dysgu i'r unigolyn; er enghraifft, nid ystyrir dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol lefel 1 a allai ymdopi â'r Dystysgrif Her Sgiliau ar lefel 2.

Yn ogystal â'r sylwadau mwy cyffredinol hyn yn ymwneud â Bagloriaeth Cymru, codwyd materion penodol ynghylch gofynion y cymwysterau ategol sy'n cyfrannu at y Fagloriaeth Cymru ôl-16.

Ar hyn o bryd mae'r manylebau ar gyfer y cymwysterau hyn yn nodi:

- o fis Medi 2016, yr unig gymwysterau llythrennedd a rhifedd a all gyfrif tuag at ddyfarnu cymhwyster yw'r TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg - Rhifedd newydd; a bod
- rhaid i holl gydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau gael eu cwblhau mewn un flwyddyn academaidd

<b>Argymhelliad 8</b>	
Dylai Cymwysterau Cymru weithio gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn cynllunio a chynnal gwerthusiad o gymwysterau newydd Bagloriaeth Cymru yn dilyn dyfarniadau haf 2017. Dylai'r gwerthusiad gadarnhau p'un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r broses o ddylunio a chyflwyno Bagloriaeth Cymru, ynghyd â'r fframwaith polisi y'i cyflwynir ynddo. Dylid casglu tystiolaeth o haf 2016 a'r flwyddyn ganlynol er mwyn llywio'r gwerthusiad, gan gynnwys adborth uniongyrchol gan ddysgwyr a darparwyr.	Medi 2016 i Ragfyr 2017
<b>Argymhelliad 9</b>	
Dylai CBAC ddiweddarau'r manylebau ar gyfer y Fagloriaeth Cymru Sylfaen a Chenedlaethol ôl-16 er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cadarnhau y gall cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, ar y lefel briodol, barhau i gyfrannu at ddyfarnu'r Fagloriaeth Cymru ôl-16</li> <li>• dileu'r gofynion i'r Dystysgrif Her Sgiliau gael ei chwblhau o fewn blwyddyn</li> </ul> Dylai Cymwysterau Cymru a CBAC ymchwilio i a ellid dyfarnu cymhwyster Sylfaen, lle bo'n bosib, i ddysgwyr sy'n astudio'r Fagloriaeth Cymru Cenedlaethol ôl-16.	Mai 2016
<b>Argymhelliad 10</b>	
Dylai CBAC ddiweddarau manylebau Bagloriaeth Cymru er mwyn cadarnhau y gall naill ai gymwysterau TGAU Mathemateg - Rhifedd neu TGAU Mathemateg gyfrannu at gyflawni Bagloriaeth Cymru ar bob lefel.	Mai 2016

## 6.5 Ystyriaethau polisi

Cododd nifer o randdeiliaid bryderon am ganlyniadau anfwriadol posibl polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fagloriaeth Cymru newydd. Mae hyn yn cynnwys eu mabwysiadu'n gyffredinol. Er bod hyn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, rydym wedi nodi'r prif faterion yn yr adroddiad hwn fel y gall Llywodraeth Cymru ystyried p'un a ddylid, a sut y dylid, ymdrin â hwy.

Mae'r polisi mabwysiadu cyffredinol yn adlewyrchu'r argymhelliad a wnaed yn yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*, sef:

*Dylai Llywodraeth Cymru annog pawb i fabwysiadu Bagloriaeth Cymru fel y sail ar gyfer rhaglenni dysgu – ysgolion yn 14 i 16 oed ac ysgolion a cholegau yn 16 i 19 oed (a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith os yw'n briodol). Yn 14 i 16 oed dylai pob dysgwr ddilyn yr un rhaglen ddysgu Bagloriaeth Cymru, ond gallai cyrhaeddiad fod ar Lefel 1 (Cenedlaethol Sylfaen) neu Lefel 2 (Cenedlaethol).*

*Dylai dysgwyr ôl-16 ddilyn naill ai Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol ôl-16 neu Bagloriaeth Cymru Uwch. Ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n dilyn llwybr galwedigaethol, dylai cynnwys eu Bagloriaeth Cymru gael ei lywio gan yr ymagwedd Rhaglen Maes Dysgu sy'n cael ei datblygu.*

Drwy ein hadolygiad, nodwyd y pryderon canlynol gennym:

- Diffyg eglurder ynghylch beth mae polisi mabwysiadu cyffredinol yn ei olygu'n ymarferol i fyfyrwyr unigol. P'un, er enghraifft, a fyddai disgwyl i fyfyrwr a oedd yn gadael yr ysgol yn 16 oed i fynd i addysg bellach gan ddilyn rhaglen Lefel 1 neu Lefel 2 i ddechrau ac yna raglen Lefel 3 gyflawni Bagloriaeth Cymru deirgwaith ar dair lefel wahanol. Yn gysylltiedig â hyn, mae pryderon ynghylch p'un ai'r Dystysgrif Her Sgiliau fydd y dewis cywir i fyfyrwr bob amser, yn enwedig os byddant eisoes wedi'i chyflawni fel rhan o raglen ddysgu gynharach yn seiliedig ar Fagloriaeth Cymru.
- Mae pryderon ynghylch y gofyniad i bob cymhwyster a gaiff ei astudio fel rhan o Fagloriaeth Cymru fod ar yr un lefel (hynny yw, i gyd ar lefel 1, lefel 2 neu lefel 3). Ystyrir bod hyn yn rhwystr posibl i ddatblygiad myfyrwyr sy'n gryfach mewn rhai meysydd ac yn wannach mewn eraill; er enghraifft, myfyrwr sy'n astudio cymwysterau ategol Lefel 2 ond y gall Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen fod yn fwy priodol ar ei gyfer, neu fyfyrwr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol Lefel 1 ond sydd eisoes wedi cyflawni Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen CA4 ac sy'n barod i fynd ymlaen i Dystysgrif Her Sgiliau Ôl-16 ar y lefel Genedlaethol.
- Mae gan ddarparwyr addysg bellach bryderon am ymarferoldeb a rhwyddineb disgwyliadau a bennir gan bolisi ariannu ar gyfer pob myfyrwr sy'n cychwyn ar Fagloriaeth Cymru ôl-16 flwyddyn o hyd er mwyn cyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU Saesneg a TGAU Mathemateg, lle nad ydynt wedi llwyddo

i wneud hynny wrth ddilyn cwrs astudio dwy flynedd yng Nghyfnod Allweddol 4.

- Mae rhanddeiliaid o bob rhan o'r system yn dal i bryderu am ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru ymhlith staff canolfannau, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch. Cafodd y pryder hwn ei godi'n aml gan y sawl sy'n cefnogi Bagloriaeth Cymru a'i nodau, ond sy'n poeni y gall ymdrechion dysgwyr i gyflawni Bagloriaeth Cymru gael eu taseilio am nad yw rhanddeiliaid yn gwybod beth sydd dan sylw.

Argymhelliad 11	Pryd
<p>Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, adolygu ei pholisïau sy'n ymwneud â Bagloriaeth Cymru ac ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut i barhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Fagloriaeth Cymru ymhlith canolfannau, staff addysgu, dysgwyr, rhieni addysg uwch a chyflogwyr</li> <li>• Egluro ei disgwyliadau o ran mabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol a beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau a myfyrwyr</li> <li>• Beth yw ei disgwyliadau i fyfyrwyr ennill mwy nag un cymhwyster Bagloriaeth Cymru</li> <li>• Egluro ei disgwyliadau i fyfyrwyr sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 â graddau D ac is mewn TGAU Cymraeg/Saesneg a Mathemateg / Mathemateg- Rhifedd.</li> <li>• Ei disgwyliadau i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Fagloriaeth Cymru ôl-16 sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol eraill ar lefelau gwahanol.</li> </ul>	<p>Ddechrau 2017</p>

## 7 Casgliad

Am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r broses o gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd wedi bod yn fwy heriol nag y gallai fod wedi bod. Mae'r ffaith bod gofynion a hyfforddiant gweithredol manwl wedi dod i law yn hwyr wedi peri dryswch a rhwystredigaeth, ac mae angen mwy o gyfarwyddyd er mwyn cefnogi'r gwaith o asesu cymwysterau newydd y Dystysgrif Her Sgiliau. Codwyd cwestiynau ynghylch faint o waith asesu sydd ei angen ar y Tystysgrifau Her Sgiliau newydd ac ynghylch strwythur Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol, y byddwn yn eu hystyried yn rhan o adolygiad manylach.



Er gwaethaf yr heriau hyn, erys y gefnogaeth i Fagloriaeth Cymru a'i nodau yn uchel iawn ymhlith rhanddeiliaid. Mae ein hargymhellion yn anelu at ymdrin â'r pryderon a nodwyd yn ein hadolygiad er mwyn cefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus er budd dysgwyr yng Nghymru.